## NODIADAU ARIANNOL

**Cyfraniadau a chau'r llyfrau cyfrifon yn brydlon am 2006**

Mynegwn ein diolch eto eleni i nifer fawr o'r aelodau am gyfrannu mewn da bryd. Serch hynny, fe ddaliwn i apelio ar i'r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau yn fuan, ac yn sicr erbyn **30 Tachwedd**, os gwelwch yn dda. Mae prydlondeb y talu yn gwir hwyluso'r Trysorydd i gau llyfrau'r Eglwys yn gynnar yn Ionawr 2007.

Mae'n anochel fod sawl elfen yn ein treuliau yn codi yn bur gyson, ond yr hyn sy'n ein taro eleni yw'r cynnydd sylweddol mewn costau ynni — costau nwy yn arbennig, a hefyd gostau trydan, ac mae ein hymdrechion i gyfarfod â'r gofynion hyn yn prysur ddwysáu.

**Cymorth Rhoddion**

Erbyn hyn, mae nifer dda o'r aelodau yn manteisio ar yr arfer o gyfrannu drwy Gymorth Rhoddion, ac anogir y gweddill ohonoch sy'n talu treth incwm ar y raddfa sylfaenol i ddilyn yr un patrwm. Cyfeiriwyd eisoes at y cynnydd mewn costau, ac mae'r ad-daliad y gellir ei hawlio o'r dreth incwm yn ffynhonnell ychwanegol ddefnyddiol iawn o arian i'r Eglwys, ac yn ddi-gost i'r aelod.

*Gallwch gael ffurflenni Cymorth Rhoddion oddi wrth yr Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd.*

Llawer o ddiolch eto i bawb am bob cefnogaeth i'n hymdrechion ni yma yn y Garn.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 10 Rhagfyr i:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net


Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com


# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street


Rhif 23 www.capelygarn.org Hydref 2006


***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
(01970) 828147

***Croeso*** i rifyn yr Hydref o 'Gair o'r Garn'. Yr ydym bellach wedi bod heb weinidog am chwe mis. Fel anifail porthiannus, yr ydym hyd yma wedi llwyddo i fyw ar waddol y blynyddoedd bras pan oedd gweinidog gennym. Yn awr, ac o hyn ymlaen, bydd y golled yn dechrau dangos.

Yn naturiol, gwelir bylchau wrth ystyried trefnu cwrdd diolchgarwch ac oedfaon y Nadolig, er enghraifft. Y flwyddyn nesaf, fe all y bydd bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer y Suliau, ac o bosib bydd y pulpud yn wag ar fwy nag un achlysur – profiad newydd iawn i ni yn y Garn.

Ond, wedi dweud hyn, mae'n galonogol gweld aelodau yn torchi llewys ac yn bwrw iddi i wneud a allant i gynorthwyo yng ngwaith yr eglwys, ac mae yna arwyddion o ysbryd ac egni newydd ymhlith aelodau iau yr eglwys.

Diolch i Erddyn, Ian a Bryn am eu gwaith yn peintio'r gegin. Mae'n edrych yn dda. Mae gennym le i ddiolch i Ian am ei waith a'i barodrwydd dirwgnach gydol y flwyddyn. Mae'n amheus a oes unrhyw eglwys mor ffodus yn ei gofalwyr ag ŷm ni yn y Garn a Bethlehem.

Llongyfarchiadau i gôr Ger y Lli ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i gorau ieuenctid dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yr ydym yn falch o'n cysylltiad a'r côr yma gan mai festri'r Garn yw ei gartref bellach, a'r aelodau yn ymarfer yma bob nos Iau.

Braf yw gweld y plant yn ôl yn yr ysgol Sul wedi gwyliau'r haf. Croeso i'r aelodau newydd, a diolch am ffyddlondeb yr wynebau cyfarwydd. Mae presenoldeb yr ifanc yn calonogi a chodi'r ysbryd bob amser. Diolch i'r athrawon sydd yn rhoi cymaint o'u hamser i baratoi gwersi a gweithgareddau diddorol iddynt o Sul i Sul. Erbyn y rhifyn nesaf, gobeithio y bydd newyddion am ddarpariaeth briodol ar gyfer plant ac ieuenctid oedran ysgolion uwchradd.

*E T Jenkins* (*Ysgrifennydd)*

***Cymdeithas Lenyddol y Garn***

***Swyddogion 2006–2007***

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Mrs Llinos Dafis |
| Is-gadeirydd: | Mrs Gaenor Hall |
| Ysgrifennydd: | Mrs Mary Thomas |
| Trysorydd: | Mrs Bet Evans |
| Tocyn aelodaeth: | £1 |
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elina Davies<br>Shân Hayward<br>Dewi Hughes<br>Erddyn James<br>Vernon Jones<br>Margaret Rees<br>Janet Roberts<br>Brenda Williams |

Y cyfarfodydd unwaith y mis ar nos Wener am 7.30 o'r gloch

***Cartref Tregerddan***

Diolch o galon i'r Parch R W Jones, blaenoriaid, aelodau a phlant yr Eglwys am eu parodrwydd i gynnal gwasanaethau yn Nhregerddan yn ystod 2006. Gwerthfawrogir eich ymroddiad yn fawr iawn.  Gan fod nifer gweinidogion y cylch wedi lleihau, mae eich cyfraniad yn sylweddol iawn i batrwm cyson y gwasanaeth bob pnawn Sul.

Ni allaf fyth fynegi maint ein dyled i Kathleen Lewis, sy'n cyfeilio bob Sul ac yn gwneud cymaint i roi pleser i drigolion Tregerddan.

Pob dymuniad da

*Alwen*

**_Taith i America – rhai argraffiadau_**



I ddeall Americanwyr, mae'n rhaid deall ambell beth maen nhw'n eu cymryd yn ganiataol: America yw'r wlad orau yn y byd; y cyfansoddiad yw'r rhodd gorau i Dduw ei roi i'r byd erioed; mae democratiaeth yn fwy pur yn America nag mewn unrhyw wlad arall; rhaid arddangos balchder amlwg yn y wlad, er mwyn atgoffa'r trigolion pa mor ddiolchgar y dylen nhw fod o gael byw ynddi, a hynny mewn nifer o ffyrdd, ond mai chwifio'r faner mor amlwg â phosib yw'r ffordd orau o wneud hyn.

O gofio'r pethau hyn mae hi'n dipyn haws deall agwedd y wlad at faterion tramor, eu bydolwg yn gyffredinol, a pham eu bod nhw'n falch o'ch cael chi yn eu gwlad yn ymweld. Fe fyddech chi'n disgwyl i syniadau mor haerllug o 'superior' ddod oddi wrth bobl sydd â phennau bychain iawn, ond mae'r mwyafrif o bobl yn arddel y daliadau hyn yn y ffordd mwyaf didwyll posib. Maen nhw wir yn credu, yr holl ffordd o'r crud i'r bedd gyda'u hymenydd wedi'i olchi gan draddodiad, mai'r Unol Daleithiau yw'r peth gorau yn hanes y byd.

O roi golwg grefyddol ar hyn, mae'r cyfan yn rhodd oddi wrth Dduw. Mae rhyddid mynegiant, y cyfansoddiad, ac ewyllys yr arweinyddion i frwydro'n rhydd yn 1776 i gyd yn rhoddion gan Dduw.

Mae diffyg a cham-ddefnydd o wybodaeth am grefyddau eraill, yn enwedig am Fwslemiaeth, yn llawer gwaeth a mwy amlwg nag ym Mhrydain. Pan ymddangosodd 'yr Americanwr' ar dâp Al-Qaeda tra oeddwn yn Efrog Newydd, roedd yr 'adroddiadau' amdano yn ofnadwy. Roedd gohebwyr, ar sianeli newyddion sydd i fod yn rhai cyfrifol, yn ei alw yn 'nut-job', ac roedd anghrediniaeth amlwg o'r ffaith y gallai bachgen o America ystyried troi at grefydd arall heblaw Cristnogaeth, heb sôn am y gwarth a deimlid mai Mwslemiaeth oedd y grefydd honno.

Fe ddylen ni fod yn ddiolchgar am gael byw mewn gwlad sy'n ddigon goleuedig i drin crefyddau eraill gyda mwy o barch ac am gael cyfryngau sydd â rheolaeth olygyddol annibynnol dros eu gohebu.

*Seiriol Hughes*

*At aelodau'r Garn*,

Gan ein bod ar hyn o bryd yn ddi-fugail, ein dymuniad fel swyddogion yw ceisio, hyd y mae yn ein gallu, cyflawni'r pethau hynny ddylai fod yn nodweddiadol o bob eglwys a Christion, sef – ymweld â'r cleifion, calonogi'r gwan a chydymdeimlo â'r rhai mewn trallod.

Gan na allwn yn rhesymol wybod am amgylchiadau pawb, gofynnir yn garedig i chwi ein cynorthwyo trwy roi gwybod i ni os gwyddoch am neb mewn angen o'r fath.

Gydag ymddiheuriadau os bu i ni hyd yma, neu eto yn y dyfodol, fethu yn y dyletswyddau hyn.

Yn ddi-ffuant, ar ran fy nghyd-swyddogion,
*E T Jenkins* (*Ysgrifennydd*)

**_Joio yn yr Haul!_**



Dydd Gwener, 21 Gorffennaf, cafwyd prynhawn difyr o chwaraeon a llond bol o fwyd blasus i gloi gweithgareddau'r Ysgol Sul am y tymor, ac i ddynodi dechrau gwyliau'r haf.

Aeth plant yr Ysgol Sul gyda'u hathrawon i chwarae rownderi a phêl-droed ar draeth Ynys-las. Ar ôl mwynhau'r gêmau, aeth pawb i'r Victoria Inn lle cafwyd platied o sglodion a selsig, a hufen iâ i ddilyn. Darparwyd y cyfan yn rhad ac am ddim gan Mrs Margaret Griffiths – diolch yn fawr iddi am ei charedigrwydd.

*Cwmni Licris Alsorts*

Cynhelir

Noson Deyrnged i BJ

nos Wener, 29 Medi 2006

yn Neuadd Rhydypennau

am 7.30 o'r gloch

**Hydref**

1 Dr Rhidian Griffiths

4 Cymdeithas y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal Eirwen Ll Jones

8 Mr Trefor Evans
Oedfa'r hwyr i'w threfnu

13 Gwasanaeth diolchgarwch Bethlehem,
Llandre, am 7 o'r gloch



15 Sul Diolchgarwch
Oedfa gymun dan arweiniad
y Parch J Pinion Jones am 10 o'r gloch
Gwasanaeth diolchgarwch am 5 o'r gloch

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn
'Tro o gwmpas Cwmystwyth'
Edgar Morgan, Llanfarian

22 Mr Richard Llwyd Jones

29 Oedfaon i'w trefnu

***Amazing Grace***

Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Nos Fawrth, 31 Hydref – Nos Sadwrn, 4 Tachwedd

am 7.30 o'r gloch

Sioe gerdd gan Mal Pope am y Diwygiad a sgubodd drwy Gymru gan mlynedd yn ôl, ac yn arbennig am Evan Roberts, y mab i löwr o Gasllwchwr a'i harweiniodd. Bydd y cast yn cynnwys Peter Karrie, Shân Cothi a Margaret Williams

3 'Yn wir, yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, MYFI YW DRWS Y DEFAID. Os daw rhywun i mewn trwof fi, caiff ei gadw'n ddiogel, caiff fynd i mewn ac allan, a dod o hyd i borfa … Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.' (Ioan 10)

4 MYFI YW'R BUGAIL DA. Y mae'r bugail da yn rhoddi ei einioes dros y defaid … yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i yn union fel y mae'r Tad yn f'adnabod, a minnau yn adnabod y Tad, ac yr wyf yn rhoddi fy einioes dros y defaid. (Ioan 10)

Cymharwch emyn J J Williams (112) o aralleiriad y Salm 23 â'r un gan Ieuan S. Jones (62).

5 Dywedodd Iesu wrth Martha, chwaer Lasarus, 'MYFI YW'R ATGYFODIAD A'R BYWYD. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw byth … A wyt ti'n credu hyn?'

'Ydwyf, Arglwydd,' atebodd hithau. 'Yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, mab Duw, yr hwn sy'n dod i'r byd.' (Ioan 11)

6 Dywedodd Iesu wrth Thomas, 'MYFI YW'R FFORDD, Y GWIRIONEDD A'R BYWYD. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.' (Ioan 14)

Cofiwch ddarllen emyn Ann Griffiths (724) ac un George Rees (541).

7 MYFI YW'R WIR WINWYDDEN A'M TAD YW'R LLAFURWR. Y mae ef yn torri i ffwrdd pob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chwi aros ynof fi. (Ioan 15)

Addas iawn yw emyn Arthur Williams i ni ei gofio ar ddiwedd ein hastudiaeth, sef rhif 285, 'Tydi yw'r wir winwydden, Ior'.

Hoffwn bwysleisio yma ein bod ni'n ddyledus iawn i erthyglau'r Parch Elfed ap Nefydd Roberts yn wythnosol yn y *Cymro*, a hefyd i'r Parch John Owen, Rhuthun, yn y *Goleuad*, ac mi hoffwn ddyfynnu'r cyntaf ohonynt: 'Ysgrifennu i gadarnhau credinwyr yn y ffydd ac i gymeradwyo'r ffydd honno i rai nad oeddent yn Gristnogion oedd bwriad Ioan. A dyna yw gwaith yr Eglwys a'r ysgol Sul heddiw.'

*Gaenor Hall*

***Gair ar Ddiwedd Tymor***
***gan Ysgol Sul Bethlehem***

Wedi cyrraedd rhif ein haelodaeth o saith, yn ôl y traddodiad Iddewig, barnwn mai purion beth yw nodi'r saith arwydd a geir yn yr Efengyl yn ôl Ioan lle mae Iesu yn ceisio darbwyllo ei ddisgyblion, ac eraill o'i ddilynwyr, mai ef yw Mab y Tad, y Duw Byw, sef y Meseia. Nid yw ei ddwyfoldeb yn ateb eu syniadau nhw o'r Eneiniog, ac felly, gan fod y Groes yn nesáu, rhaid yw eu hargyhoeddi o barhad y Deyrnas trwy'r Ysbryd Glân.

Rhestrir y saith arwydd isod, gan gynnwys cyfeiriadau i chi gael darllen pob stori yn gyfan. Ychwanegir weithiau ambell emyn, neu ran ohono a ddaeth i'r meddwl wrth astudio'r detholiad.

1 MYFI YW BARA'R BYWYD – Mae'r bobl yn cofio gwyrth porthi'r pum mil, lle digonir y dorf gyda'r pum torth a'r ddau bysgodyn, ond mae Crist yn dweud wrthyn nhw, 'Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi. Dyma'r bara a ddisgynnodd o'r nef … caiff y sawl sy'n bwyta'r bara hwn fyw am byth.'

Ond nid yw ei ddilynwyr yn gallu deall hyn, heb sôn am gredu. 'Onid hwn yw mab Joseph y saer o Nasareth?' meddent. (Ioan 6)

2 MYFI YW GOLEUNI'R BYD – Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.' (Ioan 8)

Oleuni mwyn, trwy'r gwyll sy'n cau bob tu,
O! Arwain fi;
Pell oddi cartref wyf, a'r nos yn ddu,
O! Arwain fi;
Cadw fy nhraed; ni cheisiaf weled dim
O'r tir sy' draw; un cam sy ddigon im

– cyfieithiad John Morris-Jones o emyn Newman 'Lead, kindly light'. Barnodd pwyllgor *Caneuon Ffydd* mai cyfieithiad E. Keri Evans oedd orau, a dyna'r emyn a welir yn y gyfrol honno. Barnwch chi!

**Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 1 | Cymdeithas y Chwiorydd am 2 o'r gloch<br>Gwenda Edwards – Ymweliad â Lithuania |
| 2 | 'Amazing Grace' yng Nghanolfan y Celfyddydau,<br>Aberystwyth am 7.30 o'r gloch – noson criw'r Garn |
| 5 | Parch J E Wynne Davies<br>Oedfa gymun yn y bore |
| 12 | Parch T J Irfon Evans |
| 17 | Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch<br>'Atgofion Amser Rhyfel'<br>Eirlys, Marjorie, Morfudd a Nest |
| 19 | Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore<br>Oedfa'r hwyr dan arweiniad Mr Cen Llwyd |
| 25 | Ffair y Capel, yng ngofal y Chwiorydd |
| 26 | Mr Walford L Gealy<br>Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre |

Ers rhai Suliau, bu'r blaenoriaid yn cymryd eu tro i gyfarch yr aelodau wrth iddyn nhw gyrraedd ar gyfer oedfa'r bore.

Beth yw ein barn am hyn? Ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da?

Byddem yn falch o gael eich ymateb!

## *Grŵp Help Llaw*



Fe ailgychwynnodd y Grŵp Help Llaw yn hwyliog iawn ar y 13eg o Fedi. Y gobaith yw y byddwn yn cyfarfod yn rheolaidd am 2.30 p.m. bob prynhawn Mercher o hyn i'r Dolig, heblaw am y dydd Mercher cyntaf ym mhob mis.

Rydym am gefnogi Tŷ Gobaith eleni eto trwy archebu cardiau Nadolig – ffurflenni archebu gan Shân a Bethan.

Os ydych am lenwi bocs sgidiau ar gyfer Operation Christmas Child, cysylltwch ag Eddie Jones, ac fe gewch focs wedi ei baratoi yn barod a phamffled gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol.

Gyda llaw, os oes gennych bapur lapio anrhegion Nadolig yn sbâr, byddai Eddie Jones yn falch ohono ar gyfer y boscys.

Mae Eric Harries o Aberystwyth wedi derbyn llwyth o ddillad wedi eu gwau, teganau meddal a rhodd ariannol i fynd allan i Bosnia cyn diwedd mis Medi. Bydd y llwyth nesaf yn mynd i Lithuania cyn y Nadolig.

Rydym yn dal i gasglu stampiau i OXFAM, ac yn ddiolchgar iawn i'r cyfranwyr cyson.

Diolch i bawb am y rhoddion o waith a ddaeth i law wedi gwyliau'r haf.

*Shân Hayward* (828268) a *Bethan Jones* (611502)

## *Chwiorydd y Garn*

Daeth yn amser i ailgydio yng ngweithgareddau'r chwiorydd eto, ac yn barod cafwyd un cyfarfod ar y dydd Mercher cyntaf ym mis Medi, pryd y bu Marian Jenkins yn rhoi ei hargraffiadau o'i thaith i India.

Byddwn yn cynnal gwasanaeth o ddiolchgarwch bnawn Mercher, 4 Hydref, am 2 o'r gloch o dan ofal Eirwen Llwyd Jones, Capel y Morfa, a bydd te yn dilyn y gwasanaeth.

Mae'r gwaith o adnewyddu'r gegin wedi ei gwblhau erbyn hyn, ac mae'n edrych yn arbennig o hardd ar ei newydd wedd. Diolch i Erddyn a'i dîm o wirfoddolwyr am ymgymryd â'r gwaith peintio.

Estynnir gwahoddiad cynnes i unrhyw un ymuno yng ngweithgareddau'r chwiorydd, a gynhelir ar y pnawn Mercher cyntaf yn y mis am 2 o'r gloch. Bydd cyfle wedyn i fwynhau paned a sgwrs, gyda'r stondin arferol.

Cytunodd y canlynol i weithredu ar y pwyllgor yn ystod y flwyddyn 2006–2007:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Y Fonesig Alwen Morgan |
| Trysorydd: | Ray Evans |
| Is-drysorydd: | Meinir Lowry |
| Cydlynydd: | Elen Evans |
| Aelodau eraill: | Elina Davies |
| | Shân Hayward |
| | Beryl Hughes |
| | Kathleen Lewis |
| | Margaret Rees |

***Duw a ŵyr – Emynau'r Diwygiad***

Lleuwen Steffan,

gyda Jochen Eisentraut ar y piano,

yn cyflwyno trefniannau newydd
o emynau cyfarwydd

Nos Fercher, 4 Hydref

yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

am 7.30 o'r gloch

Tocynnau: 01970 632548 / www.llgc.org.uk/drwm

***Mynwent y Garn***

Mae pawb yn canmol y llwybrau ar eu newydd wedd. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y costau.

Mae un llwybr cul ar ochr chwith y fynwent heb ei dario, ac mae angen ei wneud yn ddirfawr. Os oes rhywun â diddordeb i gyfrannu rhywfaint tuag at y gost o'i dario, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Byddwn hefyd yn falch o dderbyn llwyni lliwgar, heb fod yn tyfu'n uchel, i'w plannu ar flaen y fynwent, nesaf at y ffordd fawr. Mae angen 4 arnom i lanw bylchau.

Erbyn hyn mae crynodeb o hanes y fynwent, ynghyd â rhestr o'r rhai sydd wedi eu claddu yno, ar gael ar yn y festri ac ar wefan y Garn (www.capelygarn.org/fynwent.php).

*Eddie Jones* (*Goruchwyliwr y fynwent*)

**Rhagfyr**

3 Oedfa'r bore am 10 dan arweiniad Mr Arthur Roderick

Gwasanaeth Carolau Dwyieithog
dan nawdd Sefydliad y Merched Ceredigion
am 3 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb

6 Cymdeithas y Chwiorydd am 2 o'r gloch

8 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Tro i fyd celf' – Ossie Osmond, Llansteffan

10 Parch Ddr John Tudno Williams
Oedfa gymun yn y bore

17 Mr Arwyn Pierce

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn yn
ymweld â Chymdeithas Capel Seion



24 Gwasanaeth Nadolig am 10 o'r gloch

25 Gwasanaeth y cymun ar fore'r Nadolig
dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse am 10 o'r gloch

31 Oedfa'r bore am 10 dan arweiniad
y Parch J Elwyn Jenkins

Gwylnos dan arweiniad y Parch W J Edwards
am 11.30 o'r gloch

*O'r Garn i Lithuania*

Ers tua saith mlynedd, bu Grŵp Help Llaw Machynlleth, grŵp a sefydlwyd gan aelodau eglwysi'r dref, yn gweu a chrosio at achosion da. Anfonwyd llawer o'r gwaith i gwfaint yn Pastuva, Lithuania, sy'n dosbarthu'r cynnyrch i bobl anghenus yn y cylch, a hynny drwy'r cysylltiad â chwfaint y Carmeliaid yn Nolgellau. Erbyn hyn, mae Grŵp Help Llaw y Garn wedi ymuno â'r cynllun.

Ddechrau Mehefin eleni, cefais gyfle i ymuno ag wyth o bobl ar ymweliad â chwfaint Pastuva: Eirlys ac Alfyn Phillips a Jane Owen, Machynlleth; Eiriona, chwaer Eirlys, o Bontarddulais; Dilys Richards, Pen-y-bont ar Ogwr; Norma Davies, gwraig o India sy'n byw ym Mhren-bre, a'r Chwaer Maria o gwfaint Dolgellau.

Bu inni hedfan o faes awyr Stansted i dref Kaunas yn ne orllewin y wlad, ac yno i'n cyfarfod yr oedd George a Linus, ei fab, gyda bws mini i'n cludo i'r cwfaint ddeunaw milltir i'r gorllewin. Teithio allan o'r dref ar hyd y priffyrdd syth, a dod ymhen hanner awr at dro yn y ffordd, ac at ffordd fach oedd yn arwain i'r cwfaint. Gallem weld yr adeilad hardd yn y coed yn y pellter, adeilad a godwyd gan roddion ffrindiau tua chwe mlynedd yn ôl. Cyn hynny, roedd y lleianod yn byw mewn adeilad bach yn ymyl yr un presennol.

Y cwfaint oedd ein cartref am bum noson, a chreodd y croeso a'r llawenydd amlwg ym mywyd y Chwiorydd gryn argraff arnom.

Cawsom gyfle i ymuno mewn gwasanaethau boreol, cerdded o gwmpas y cwfaint a phrofi'r awyrgylch tawel a thangnefeddus yno. Roedd y Chwaer Mavis, sy'n dod i gwfaint Dolgellau yn gyson, wrth ei bodd yn ein tywys, ac yn esbonio inni gyflwr truenus rhai o'r cymdogion sydd, ers y cyfnod pan oedd Rwsia wedi meddiannu'r wlad, mewn tlodi mawr. Mae'r Chwiorydd yn eu helpu ac yn dosbarthu bwyd o'r cwfaint yn wythnosol.

Ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad buom yn Vilkija, y dref agosaf at y cwfaint, a chael cyfle i ymweld â'r ysbyty a'r ysgol uwchradd. Aeth meddyg plant yr ysbyty, Dr Mildai Naujokaitienel, gwraig prifathro'r ysgol, â ni i ganolfan i blant gwael ac anabl mewn bloc o fflatiau llwm, cyfagos. Cawsom groeso mawr gan y plant a'u rhieni, a chyfle i gyflwyno teganau a dillad i'r plant.



Ar ôl cael te a chacen groeso, cyflwyno Eirlys arian o Fachynlleth i'r meddyg, a chyflwynais innau rodd ariannol o'r Garn. Roedd hi mor ddiolchgar o dderbyn y rhoddion, a chofiwn yn hir iawn y rhyfeddod ar wynebau'r plant wrth dderbyn yr anrhegion.

Yn ystod y dyddiau eraill, buom yn ymweld â thref Kaunas, mynachlog ar gyrion y dref, a'r Eglwys Wen drawiadol; taith hyfryd mewn cwch ar yr afon wedyn, a chyfle i fynd i ganolfan siopa newydd. Ar y diwrnod olaf, buom yn ymweld ag amgueddfa awyr-agored, tebyg i Sain Ffagan. Yn un rhan ohoni roedd cerbyd un o'r trenau a oedd yn cludo pobl Lithuania i Siberia yn ystod y rhyfel. Roedd hen wraig, a fu yn un o'r cerbydau yn 13 oed, yno i ddweud ei hanes.

Ar y noson olaf, cawsom gyfarfod y Chwiorydd i gyd, a chyflwyno anrhegion iddynt o Gymru. Cawsom ninnau gannwyll bob un o'r cwfaint.

Ar ôl treulio pum noson yn y cwfaint, daeth bore'r ffarwelio a dymuno'n dda inni ar ein taith i Latfia, a'r Chwiorydd yn gobeithio cael ein gweld eto.

Roedd y cyfnod yn y cwfaint yn brofiad gwerthfawr: yr adeilad hardd, y croeso a'r llawenydd amlwg ym mywyd y Chwiorydd, a'u brwdfrydedd wrth roi eu crefydd ar waith ym mywyd y gymuned.

*Gwenda Edwards*